

Y Cynllun Sabothol Cenedlaethol – Taflen Asesu Cyfweliad Llafar

Rhif myfyriwr: Sarah Powell Dyddiad: Ebrill 9fed

Meini Prawf	Methu	Llwyddo		Teilyngdod	Rhagoriaeth	
	0-39	40-49	50-59	60-69	70-79	80-100
Ynganu'n glir a Chymreig ar y cyfan ond rhai enghreifftiau o ynganu anghywir/ Seisnigaidd ar brydiau. Ynganu'n glir a Chymreig gan fwyaf. Ynganu'n gwbl glir a Chymreig.						X
Brawddegau a phatrymau syml yn gywir. Brawddegau a phatrymau sylfaenol yn gywir; brawddegu'n gywir gan fwyaf ond rhai camgymeriadau ar adegau e.e. dim yn negyddu'n gywir. Brawddegau a phatrymau amrywiol yn gywir. e.e. amrywio gosodiadau a chwestiynau, rhedeg arddodiaid, defnyddio'r frawddeg bwyslais; negyddu'n gywir.						X
Ffuriau syml y ferf yn gywir gan fwyaf, ansicrwydd ynglŷn ag amrywio'r defnydd o'r ferf h.y. defnyddio ffurfiau/amseroedd anghywir ar adegau Defnydd o'r ferf yn sylfaenol gywir; amrywio amseroedd y ferf gan fwyaf. Defnydd cywir o'r ferf yn gyson gan amrywio amser yn effeithiol a phwrpasol.						X
Yn llefaru'n bytiog iawn gan adael sawl brawddeg a chymal heb eu gorffen. Yn llefaru'n rhugl, ond yn oedi ar adegau. Yn cwblhau bron pob brawddeg neu gymal. Yn llefaru'n gwbl rugl a diymdrech heb oedi arwyddocaol. Yn cwblhau pob brawddeg neu gymal.						X
Cywirdeb llafar: defnydd cywir ar y cyfan o'r treigladau, termau, cenedl enwau ac arddodiaid. Cywirdeb llafar: defnydd cywir gan fwyaf o'r treigladau, termau, cenedl enwau ac arddodiaid. Cywirdeb llafar: defnydd cywir o'r treigladau, termau, cenedl enwau ac arddodiaid.						X
Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a'u hadnoddau addysgu yn syml. Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a'u hadnoddau addysgu yn gryno ac yn bwrpasol. Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a'u hadnoddau addysgu yn bwrpasol ac yn effeithiol.						X

Methu - [] Llwyddo - [] Teilyngdod - [] Rhagoriaeth - [x]

Marc: 81

Llofnod tiwtor: Eluned O Grandis

Tystysgrif Raddedig Sabothol – Modiwl 2
2024/25



Ail farciwr:

Y Cynllun Sabothol Cenedlaethol – Taflen Adborth Cyfweiliad Llafar

Rhif	Sarah Powell
Sylwadau	Diolch yn fawr iawn Sarah am gyfweiliad hyfryd a diffuant. Roeddech chi’n siarad yn bwyllog, yn rhwydd, yn rhugl ac yn naturiol iawn heb unrhyw nodiadau. Ateboch chi bob cwestiwn ac roeddech chi’n hunan-gywiro pan oedd angen, sydd yn sgil bwysig. Mae gennych chi afael ardderchog ar ferfau amrywiol ac roeddech chi’n amrywio’ch brawddegau a’ch patrymau’n arbennig. Braf oedd eich clywed yn defnyddio ymadroddion Cymreig fel, <i>yn bendant, i fod yn onest, ac ati</i>. Roedd eich adfyfrio a’ch gwerthuso’n fanwl ac yn effeithiol. Mynegoch chi’ch hunan yn dda iawn am eich profiad, sydd yn arwydd o ruglder. Llongyfarchiadau mawr, Sarah – rydych chi’n ymarferwr naturiol ac arbennig a bydd y dysgwyr wrth eu boddau gyda chi yn dysgu Cymraeg iddyn nhw ar ôl y Pasg. Brawddegau, patrymau ac amser y ferf: Dydw i ddim yn barod i orffen eto. Dw i’n edrych mlaen at y gwyliau. Mae dau o blant gyda fi – mae yn ddwy oed. Rydyn ni’n hoffi mynd ar wyliau yn y garafan. Dw i’n mwynhau dysgu Addysg Gorfforol achos does dim gwaith yn y llyfrau! Dydw i ddim yn hoffi glanhau yn fy amser sbâr, ond mae’n rhaid i fi lanhau. Es i am dro gyda fy nheulu achos roedd y tywydd yn hyfryd ac es i i de prynhawn. Roedd yn hyfryd achos dydw i ddim yn gweld fy mam heb y plant. Bydda i’n mynd yn y garafan i Ddinbych y Pysgod. Rydw i’n edrych ymlaen at ymlacio yn y tŷ, treulio amser gyda’r plant ar fy ben fy hun. Rydw i’n teimlo’n fwy hyderus y tymor hwn na’r tymor cyntaf. Rydw i’n teimlo fy mod i’n dysgu mwy o batrymau a mwy am ramadeg ac aeth y meicro ddysgu yn dda y tymor hwn hefyd. Rydw i’n edrych ymlaen at wneud y cwrs Uwch ar ôl y cwrs hwn achos dydw i ddim yn barod i orffen. Rydw i wedi dysgu mwy o batrymau i ddefnyddio yn naturiol, bob dydd. Roedd y profiad yn wych. Roedd yn wych gweld plant yn defnyddio Cymraeg yn naturiol a sut maen nhw’n dysgu Cymraeg. Mae mynd yn ôl i’r ysgol wedi bod yn anodd achos does dim llawer o amser i wneud ‘impact’ ac achos mae ar ddydd Mercher mae’n anodd. Mae’r meicro ddysgu wedi gwneud fi’n fwy hyderus ac os rydw i’n gallu dysgu oedolion, rydw i’n gallu dysgu plant. Mae’n hyfryd gweld syniadau pobl eraill hefyd a sut maen nhw’n dysgu yn wahanol. Ar y dechrau, doeddwn i ddim yn meddwl baswn i’n mwynhau ond rydw i’n falch ein bod ni’n gwneud nhw. Efallai baswn i’n defnyddio gwahanol weithgareddau drilio ac efallai baswn i’n fwy gweithgar yn y wers.

	Gobeithio bydda i’n cario mlaen gyda grwpiau bach o blant – grwpiau ffocws – i ddatblygu Cymraeg achlysurol yn yr ysgol. Rydw i eisiau defnyddio mwy o Gymraeg bob dydd, mwy o Gymraeg naturiol gyda’r plant. Hefyd, bydda i’n gwella fy slot drilio. Dw i’n meddwl mae’n bwysig siarad Cymraeg gyda’r plant a defnyddio Cymraeg mewn brechdan. Mae’n anodd achos rydyn ni’n poeni dydy’r plant ddim yn deall beth rydyn ni’n dweud, ond dydw i ddim yn nerfus, rydw i eisau trochi’r plant yn y Gymraeg dw i’n meddwl a gobeithio cefnogi’r staff i ddefnyddio mwy o Gymraeg hefyd. Rydw i wedi dysgu bod siarad mor bwysig. Mae plant yn fy ysgol i yn ffeindio siarad Saesneg yn anodd ond mae’r plant yn hapus i ddysgu. Maen nhw eisiau dysgu mwy ac maen nhw’n mwynhau Cymraeg ond does dim llawer o hyder gyda’r plant yn fy ysgol. Does neb o’r staff yn siarad Cymraeg o gwbl a does dim hyder gyda nhw - dydyn nhw ddim eisiau dweud unrhyw beth yn anghywir. Mae un athrawes wedi gwneud y cwrs Sabothol bum mlynedd yn ôl ond gwnaeth hi’r cwrs amser Covid felly doedd dim llawer o gyfle gyda hi i ymarfer siarad. Gobeithio byddwn ni’n gallu cefnogi’n gilydd. Rydyn ni’n gweithio at y wobwr arian. Pan fydda i’n mynd yn ôl bydda i’n helpu... Maen nhw’n gwneud gwasanaethau bob wythnos ac maen nhw’n canu llawer. Mae’n rhaid i ni drochi’r plant yn fwy. Hoffwn i ddefnyddio mwy o weithgareddau fel darllen fy meddwl, chwap – rydw i eisiau defnyddio mwy o amrywiaeth o weithgareddau achos rydw i wedi dysgu cymaint o strategaethau i ddrilio yn well. Hoffwn i greu amserlen i ddefnyddio gweithgaredd gwahanol bob dydd. Rydw i eisiau mwy o blant i fod â hyder gyda’r Gymraeg gydag ymwelwyr neu gyda’i gilydd. Rydw i eisiau clywed mwy o Gymraeg o gwmpas yr ysgol a’r plant i siarad Cymraeg gyda’i gilydd. Rydw i eisiau i ni gael gwobr arian. Rydw i’n ffodus achos ar ôl y cwrs hwn bydda i’n gwneud y cwrs Uwch, Ar ôl hwnna, bydda i’n parhau dysgu Cymraeg trwy Dysgu Cymraeg a jyst siarad gyda phobl sy’n siarad Cymraeg. Mae fy mab yn mynd i ysgol Gymraeg felly hoffwn i siarad mwy o Gymraeg gyda fe ond mae e eisiau siarad Saesneg yn y tŷ. Rydw i wedi dysgu fy mod i’n gwybod mwy nag oeddwn i’n meddwl ac rydw i’n gallu cynnal sgwrs. Ynganu – gwyh!
Canolbwyntiwrch ar y canlynol:	1. Es i i de prynhawn yn y gwesty Grand > Es i i de prynhawn yng ngwesty’r Grand 2. Geirfa – impact > dylanwad 3. Rydw i’n gwybod sut pwysig yw drilio gyda’r plant > Rydw i’n gwybod pa mor bwysig yw drilio gyda’r plant 4. Gobeithio bydd y plant yn cael mwy o hyder 5. Llawer o gân > llawer o ganeuon 6. Cadw cyswllt. Parhewch i ymarfer a darllen er mwyn ehangu eich geirfa ymhellach. Rydw i’n ffyddiog y byddwch chi’n fwy rhugl eto yn y dyfodol. Pob dymuniad da, Sarah!

Tystysgrif Raddedig Sabothol – Modiwl 2
2024/25

Methu	Llwyddo	Teilyngdod	Rhagoriaeth
			X

Marc: 81

Llofnod tiwtor: Eluned O Grandis
Ail-farciwr: Hedydd Jones